




Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Fersiwn argraffadwy



Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Y Côd

Mae'r Côd yn rhestr o ddatganiadau sy'n disgrifio'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n ofynnol ymhlith pobl a gyflogir yn y proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Côd yn chwarae rhan allweddol mewn codi ymwybyddiaeth o'r safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir ymhlith y proffesiwn.

Mae'r Côd hwn yn disodli'r Côd Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd yn 2002 gan Gyngor Gofal Cymru. Mae'r Côd yn weithredol o 1 Gorffennaf 2015.

Ailgyhoeddwyd y Côd ym mis Ebrill 2017 pan newidiodd y Cyngor Gofal Cymru i Ofal Cymdeithasol Cymru. Gwnaed mân newidiadau i gynnwys enw a brand Gofal Cymdeithasol Cymru, fodd bynnag, ni wnaed unrhyw newidiadau i gynnwys neu safonau'r Côd. Gall fersiynau o'r Côd a gyhoeddwyd ers Gorffennaf 1, 2015 edrych yn wahanol, ond mae'r safonau'r un fath.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn adeiladu ar swyddogaethau y Cyngor Gofal drwy, yn benodol, gofrestru mwy o grwpiau o weithwyr gofal cymdeithasol; cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer ariannu hyfforddiant gofal cymdeithasol a rheoleiddio'r hyfforddiant hwnnw; pennu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil; gweithio i wella gwasanaethau gofal penodol a chynnal hyb gwybodaeth.

Y Côd a'r Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol (y Gofrestr). Mae'r Gofrestr yn gofnod cyhoeddus bod y bobl sydd wedi'u cofrestru arni wedi bodloni'r gofynion ar gyfer mynediad i'r Gofrestr ac wedi cytuno i gadw at y safonau a nodir yn y Côd. Mae Llywodraeth Cymru'n penderfynu pa grwpiau o weithwyr sydd angen eu cofrestru gyda ni. Gellir dod o hyd i'r grwpiau cyfredol yn www.gofalcymdeithasol.cymru

Byddwn yn ystyried y Côd wrth ystyried achosion o addasrwydd i ymarfer a phenderfyniadau ynghylch a ddylai gweithiwr cofrestredig aros ar y Gofrestr, neu a ddylai ymgeisydd gael ei gofrestru.

Y Côd a chanllawiau ymarfer

Y Côd yw'r ddogfen sylfaenol sy'n gosod allan y safonau ar gyfer ymddygiad ac ymarfer. Hefyd mae'n ffurfio rhan o'r pecyn ehangach o ddeddfwriaeth, safonau ymarfer a pholisïau a gweithdrefnau cyflogwyr y mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol eu bodloni.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau ymarfer ychwanegol. Bwriedir y canllawiau ymarfer i fod yn offeryn ymarferol, sy'n cynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol yn eu hymarfer ac sy'n cyfrannu at ganlyniadau da ar gyfer unigolion. Hefyd mae'n bosibl y bydd y canllawiau ymarfer yn cael eu defnyddio i ddangos methiant posibl i gynnal y safonau yn y Côd. Dylai unigolion cofrestredig sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r canllawiau ymarfer sy'n berthnasol i'w rôl.

Y Côt a'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach

Mae'n ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig gydymffurfio â'r Côt. Fodd bynnag, mae'r Côt hefyd yn berthnasol i weithwyr gofal cymdeithasol eraill nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru gyda ni gan ei fod yn gosod safonau clir ar gyfer yr ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir gan y proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Beth mae'r Côt yn ei olygu i:

Weithwyr gofal cymdeithasol

Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, rydych yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn gweithio yn ôl y safonau yn y Côt. Rhaid i chi sicrhau nad yw eich ymddygiad ac ymarfer yn syrthio islaw'r safonau, ac nad yw unrhyw weithred neu anwaith ar eich rhan yn niweidio lles unigolion.

I bawb sy'n gweithio yn y proffesiwn gofal cymdeithasol, mae'r Côt yn darparu meini prawf i arwain eich ymarfer ac eglurder ynghylch y safonau ymddygiad y disgwylir i chi eu bodloni. Fe'ch anogir i ddefnyddio'r Côt i archwilio eich ymddygiad ac ymarfer eich hun ac i chwilio am feysydd lle gallwch wella.

Unigolion a'r cyhoedd

Fel unigolyn sy'n derbyn gofal neu aelod o'r cyhoedd, bydd y Côt yn eich helpu i ddeall sut y dylai gweithiwr gofal cymdeithasol ymddwyn tuag atoch a sut y dylai cyflogwyr eu helpu i wneud eu gwaith yn dda.

Cyflogwyr

Fel cyflogwr gweithwyr gofal cymdeithasol, disgwylir i chi hybu'r defnydd o'r Côt a'i gymryd i ystyriaeth wrth wneud unrhyw benderfyniadau ynghylch ymddygiad ac ymarfer eich staff.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau isod yn rhoi esboniad o'r termau gwahanol sy'n cael eu defnyddio yn y Còd.

Term	Ystyr
Cyfranogiad gweithredol	Ffordd o weithio sy'n ystyried unigolion fel partneriaid gweithredol yn eu gofal eu hunain yn hytrach na derbynyddion goddefol. Mae cyfranogiad gweithredol yn cydnabod hawl pob unigolyn i gymryd rhan yng ngweithgareddau a chysylltiadau bywyd bob dydd mor annibynnol ag y bo modd.
Gofalwr	Mae gofalwr yn darparu gofal a / neu gefnogaeth ddi-dâl a gallent gynnwys aelodau'r teulu, partneriaid, cymdogion neu gyfeillion.
Cydweithiwr	Gallai cydweithiwr fod yn unrhyw berson y mae gweithiwr gofal cymdeithasol yn ymarfer â nhw'n uniongyrchol, neu y mae eu gwaith yn cyfrannu at les unigolion.
Unigolyn	Y person sy'n cael mynediad i ofal; boed yn blentyn, yn berson ifanc neu'n oedolyn.
Gwaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	Dulliau a ffyrdd o weithio sy'n cydnabod yn llawn pa mor unigryw yw unigolyn ac sy'n sefydlu hyn fel sail ar gyfer cynllunio a darparu gofal.
Gweithiwr gofal cymdeithasol	Unrhyw weithiwr cyflogedig sy'n cyfrannu at ddarparu gofal a chymorth cymdeithasol.
Lles	Mae lles yn gysyniad eang sy'n cynnwys lles corfforol, meddyliol ac emosïynol, amddiffyn rhag cam-drin ac esgeulustod, mynediad i addysg, hyfforddiant a hamdden, cymorth ar gyfer perthnasoedd, cael llety addas a sicrhau hawliau.

Saith adran Y Côt

Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, rhaid:

1. Parchu safbwyntiau a dymuniadau, a hyrwyddo hawliau a buddiannau, unigolion a gofalwyr.
2. Ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion a gofalwyr.
3. Hyrwyddo lles, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr gan eu cefnogi i'w cadw eu hunain yn ddiogel.
4. Parchu hawliau unigolion gan geisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidio'u hunain na phobl eraill.
5. Gweithredu'n ddidwyll a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn gofal cymdeithasol.
6. Bod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau.
7. Yn ogystal ag adrannau 1 - 6, os ydych yn gyfrifol am reoli neu arwain staff, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y Côt yn rhan annatod o'u gwaith.

Adran 1:

Rhaid i chi barchu safbwyntiau a dymuniadau, a hyrwyddo hawliau a buddiannau, unigolion a gofalwyr.

Mae hyn yn cynnwys:

- 1.1 gweithio gydag unigolion mewn ffyrdd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a defnyddio hyn fel sail ar gyfer gofal a chymorth cymdeithasol;
- 1.2 parchu a, lle bo hynny'n briodol, hyrwyddo a chynnal hawliau, gwerthoedd, credoau, safbwyntiau a dymuniadau unigolion a gofalwyr;
- 1.3 cefnogi unigolion i'w galluogi i wneud cymaint o'u penderfyniadau ag y bo modd a bod â chymaint o reolaeth ag y bo modd dros eu bywydau;
- 1.4 gweithio gydag unigolion a gofalwyr mewn ffyrdd sy'n parchu eu hurddas, eu preifatrwydd, eu dewisiadau, eu diwylliant, eu hiaith a'u hawliau;
- 1.5 sicrhau bod eich gweithredoedd yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Adran 2:

Rhaid i chi ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion a gofalwyr.

Mae hyn yn cynnwys:

- 2.1 bod yn onest ac yn deilwng o ymddiriedaeth;
- 2.2 cyfathrebu mewn ffordd briodol, agored, gywir ac uniongyrchol;
- 2.3 cefnogi unigolion a gofalwyr yn weithredol fel y gallant gyfleu eu safbwyntiau a'u dewisiadau gan ddefnyddio'r dull ac iaith y maent yn ei ffafrio;
- 2.4 parchu gwybodaeth gyfrinachol ac esbonio polisiau ynghylch cyfrinachedd yn eglur i unigolion a gofalwyr;
- 2.5 bod yn ddibynadwy;
- 2.6 anrhydeddu ymrwymïadau, cytundebau a threfniadau gwaith a, phan nad oes modd gwneud hynny, esbonio pam i unigolion a gofalwyr;
- 2.7 datgan materion a allai greu gwrthdaro buddiannau a chymryd camau i sicrhau nad ydynt yn cymylu eich barn neu ymarfer proffesiynol;
- 2.8 cadw at bolisiau a gweithdrefnau ynghylch derbyn rhoddion ac arian gan unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Adran 3:

Rhaid i chi hyrwyddo lles, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr gan eu cefnogi i'w cadw eu hunain yn ddiogel.

Mae hyn yn cynnwys:

- 3.1 gweithio gydag unigolion mewn ffyrdd sy'n gwneud y mwyaf o'u lles a'u cyfranogiad gweithredol ac sy'n cydbwysu eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- 3.2 gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i hyrwyddo lles, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr;
- 3.3 gweithio gydag unigolion a gofalwyr i'w cadw eu hunain yn ddiogel;
- 3.4 cydnabod a defnyddio'n sensitif a chyfrifol y pŵer a ddaw o'ch gwaith gydag unigolion a gofalwyr;
- 3.5 cefnogi unigolion a gofalwyr i fynegi pryderon a gwneud cwynion, cymryd cwynion o ddifrif ac ymateb iddynt neu eu trosglwyddo i'r person priodol;
- 3.6 defnyddio systemau a gweithdrefnau cytûn i rannu gwybodaeth yn briodol gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn amserol;
- 3.7 defnyddio prosesau a gweithdrefnau perthnasol i herio ac adrodd ar ymddygiad ac ymarfer peryglus, camdriniol, gwahaniaethol neu gam-fanteisiol;
- 3.8 codi pryderon gyda'ch cyflogwr neu awdurdod priodol lle gallai ymarfer cydweithwyr neu weithwyr proffesiynol eraill fod yn anniogel neu'n cael effaith andwyol ar safonau gofal a chymorth cymdeithasol;
- 3.9 tynnu sylw eich cyflogwr neu'r awdurdod priodol at anawsterau yn ymwneud ag adnoddau neu anawsterau gweithredol a allai rwystro darpariaeth gofal a chymorth cymdeithasol diogel.

Adran 4:

Rhaid i chi barchu hawliau unigolion gan geisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidio'u hunain na phobl eraill.

Mae hyn yn cynnwys:

- 4.1 gweithio gydag unigolion i gydbwysu hawliau, cyfrifoldebau a risgiau;
- 4.2 dilyn polisiâu a gweithdrefnau asesu risg i asesu a yw ymddygiad unigolion yn cynrychioli risg o niwed iddyn nhw'u hunain neu bobl eraill;
- 4.3 cymryd camau angenrheidiol i leihau'r risg y bydd ymddygiad unigolion yn achosi niwed gwirioneddol neu bosibl iddyn nhw'u hunain neu bobl eraill;
- 4.4 sicrhau bod cydweithwyr ac asiantaethau perthnasol yn cael eu hysbysu ynghylch canlyniadau a goblygiadau asesiadau risg.

Adran 5:

Rhaid i chi weithredu'n ddidwyll a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn gofal cymdeithasol.

Yn arbennig, rhaid i chi beidio â:

- 5.1 cham-drin, esgeuluso neu niweidio unigolion, gofalwyr neu gydweithwyr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol;
- 5.2 cam-fanteisio ar unigolion, gofalwyr neu gydweithwyr mewn unrhyw ffordd;
- 5.3 cham-drin ymddiriedaeth unigolion a gofalwyr neu'r mynediad sydd gennych i wybodaeth bersonol yn eu cylch, neu eu heiddo, eu cartref neu weithle;
- 5.4 meithrin perthnasoedd personol amhriodol gydag unigolion, eu teuluoedd neu ofalwyr;
- 5.5 gwahaniaethu'n anghyfreithlon neu'n anghyfiawnadwy yn erbyn unigolion, gofalwyr, cydweithwyr neu bobl eraill;
- 5.6 goddef unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon neu anghyfiawnadwy gan unigolion, gofalwyr, cydweithwyr neu bobl eraill;
- 5.7 gosod eich hun neu bobl eraill mewn perygl diangen;
- 5.8 ymddwyn mewn modd, yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith, a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch eich addasrwydd i weithio yn y proffesiwn gofal cymdeithasol.

Adran 6:

Rhaid i chi fod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau.

Mae hyn yn cynnwys:

- 6.1 bodloni safonau ymarfer perthnasol, dilyn gweithdrefnau a gweithio mewn ffordd gyfreithlon, ddiogel ac effeithiol;
- 6.2 cynnal cofnodion clir a chywir yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion lleoliad gwaith;
- 6.3 bod yn agored a gonest â phobl os yw pethau'n mynd o le, gan gynnwys rhoi esboniad llawn a phrydlon i'ch cyflogwr neu'r awdurdod priodol am yr hyn sydd wedi digwydd;
- 6.4 hysbysu eich cyflogwr neu'r awdurdod priodol ynghylch unrhyw anawsterau personol a allent effeithio ar eich gallu i wneud eich gwaith yn gymwys ac yn ddiogel;
- 6.5 ceisio cymorth gan eich cyflogwr neu'r awdurdod priodol os nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu neu eich bod wedi'ch paratoi'n ddigonol i weithredu unrhyw agwedd ar eich gwaith neu os nad ydych yn sicr ynghylch sut i weithredu ynghylch mater yn ymwneud â gwaith;
- 6.6 gweithio'n agored a chydweithredol gyda chydweithwyr a'u trin â pharch;
- 6.7 deall eich bod yn parhau'n gyfrifol am y gwaith rydych wedi'i ddirprwyo i weithwyr eraill;
- 6.8 cydnabod a pharchu rolau ac arbenigrwydd gweithwyr proffesiynol eraill a gweithio mewn partneriaeth â nhw;
- 6.9 ymgymryd â dysgu a datblygu perthnasol i gynnal a gwella eich gwybodaeth a'ch sgiliau i sicrhau eich bod yn addas i ymarfer, a chyfrannu i ddysgu a datblygiad pobl eraill;
- 6.10 cydweithio mewn ymchwiliadau i'ch ymarfer, neu ymarfer pobl eraill, a gynhelir gan eich cyflogwr, gan Ofal Cymdeithasol Cymru, neu gan unrhyw gyrff priodol eraill.

Adran 7:

Yn ogystal ag adrannu 1 – 6, os ydych yn gyfrifol am reoli neu arwain staff, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y Côt yn rhan annatod o'u gwaith.

Mae hyn yn cynnwys:

- 7.1 sicrhau bod staff yn gwybod am y Côt a'i berthnasedd i'w hymddygiad a'u hymarfer;
- 7.2 cefnogi diwylliant agored a dysgedig yn y gweithle lle mae gan staff y cyfle i godi pryderon a chael mynediad i, trafod, myfyrio ar a rhannu arferion gorau;
- 7.3 sicrhau bod cyfleoedd ymsefydlu, hyfforddiant, dysgu a datblygu yn cefnogi staff i gynnal a datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth;
- 7.4 darparu goruchwyliaeth ac arfarnu er mwyn arwain, cefnogi ac ysgogi staff i fodloni eu rôl, eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd;
- 7.5 cymryd camau i wybod beth sy'n digwydd yn narpariaeth y gofal a'r cymorth cymdeithasol a ddarperir gan eich staff a rhoi adborth adeiladol;
- 7.6 monitro perfformiad a chymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â pherfformiad anfoddhaol neu gamymddwyn gan staff.

Mae gwybodaeth pellach am y Côt gan gynnwys canllawiau ymarfer, canllawiau esboniadol, adnoddau hyfforddi a gwybodaeth ar gyfer unigolion sy'n derbyn cymorth ar gael ar ein gwefan:

www.gofalcymdeithasol.cymru

Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru South Gate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444 Minicom: 029 2078 0680 E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

   @GofCymdeithasol **gofalcymdeithasol.cymru**

© 2018 Gofal Cymdeithasol Cymru ISBN:978-1-911463-67-2

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatad ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill: Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.